# Cymorth Ariannol

## Cysylltiadau Defnyddiol

Mae'r canllaw hwn yn cynnig gwybodaeth am wasanaethau allai fod o gymorth i drigolion Sir y Fflint gyda materion ariannol. Os ydych chi'n wynebu trafferthion ariannol am unrhyw reswm o gwbl, neu os oes angen cyngor arnoch chi, yna fe ddylech chi allu dod o hyd i wasanaeth priodol ichi. Os nad ydych chi'n dod o hyd i wasanaeth addas, cysylltwch gyda Thîm Presgripsiynu Cymdeithasol FLVC ar 01352 744002.  Bydd modd iddyn nhw drafod eich sefyllfa benodol chi a cheisio dod o hyd i'r cymorth priodol ichi.

Mae'r wybodaeth yn y ganllaw hon wedi'i rhannu i wahanol gategorïau er mwyn sicrhau ei bod yn haws ichi ddod o hyd i'r cymorth priodol. Dilynwch y dolenni i fanteisio'n uniongyrchol ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi neu ewch i'r tudalennau sydd wedi'u rhifo isod.


| | |
|---|---|
| Cyngor Dyledion | Tudalen 1 |
| Cyngor Budd-daliadau | Tudalen 3 |
| Cyngor Ynni | Tudalen 4 |
| Grantiau | Tudalen 5 |
| Cymorth amrywiol | Tudalen 6 |
| Cyngor Sir y Fflint | Tudalen 8 |


## Cyngor Dyledion

Mae **Cyngor Ar Bopeth Sir y Fflint** yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar ystod eang o bynciau gan gynnwys Dyledion. Mae ganddyn nhw hefyd linell gymorth pwrpasol os ydych chi'n denant yn y sector rhent preifat yng Nghymru ac yn bryderus ynghylch talu eich rhent neu filiau'ch cartref.

Ffôn:

0808 278 7923 – rhif ffôn lleol rhad ac am ddim

0800 7022 020 – National Advicelink

0808 278 7920 – Llinell Gymorth Dyledion Sector Rhent Preifat

01352 706840 – Llinell Gymorth Weinyddol

18001 08082 505720 – Ffôn Testun

Gwefan: https://flintshirecab.org.uk/

Bellach fe allwch chi fanteisio ar gyngor am ddim, annibynnol, cyfrinachol a diduedd drwy WhatsApp.
Mae ein cynghorwyr ar gael ddydd Llun – Gwener o 9yb tan 4yp ac eithrio gwyliau'r banc.

07862138273 *(Mae’r rhif hwn ar gyfer WhatsApp yn unig ac ni allwch ei ffonio)*

Gallai **Canolfan Cyngor Dyledion St Mark** yn Saltney gynnig yr holl amser sydd ei angen arnoch a chyfle ichi gael eich gwynt atoch a byddan nhw wrthlaw i’ch cefnogi am ba bynnag hyd yr hoffech chi. Mae’r ganolfan yn gysylltiedig â Community Money Advice (CMA).  Mae’r holl gyngor yn ddiamod, yn gyfrinachol ac yn rhad ac am ddim.

| | |
|---|---|
| Rhif Ffôn: | 01244 675372 |
| E-bost: | debtadvicecentre@stmarkssaltney.org.uk |
| Gwefan: | https://www.stmarkssaltney.org.uk/debtadvicecentre |

Mae **Stop Loan Sharks** yn archwilio ac yn erlyn benthycwyr arian anghyfreithiol ac yn cynnig cymorth i’r rheiny sy’n benthyca arian yn y DU. Os ydych chi wedi benthyca gan usuriwr neu’n pryderu am rywun arall, gallai staff cymwys gynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i’ch helpu a sicrhau eich bod yn ddiogel.

| | |
|---|---|
| Rhif Ffôn: | 0300 555 2222 |
| E-bost: | reportaloanshark@stoploansharks.gov.uk |
| Gwefan: | https://www.stoploansharks.co.uk/ |

Mae **Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru** (UBAAC) yn targedu benthycwyr arian anghyfreithlon, caiff eu hadnabod yn fwy cyffredin fel usurwyr (loan sharks). Ymysg aelodau’r tîm mae ymchwilwyr arbenigol a swyddogion cymorth i ddioddefwyr; ein prif flaenoriaeth ydy diogelwch a lles y dioddefwyr. Gallwch chi, neu rywun annwyl ichi, fod yn ddioddefwr benthyca arian anghyfreithlon. Neu mae’n bosibl eich bod chi’n meddwl bod usuriwr yn gweithredu yn eich ardal. Gallwch gysylltu gydag UBAAC ar linell frys bob awr o’r dydd. Mae’r holl alwadau’n gwbl gyfrinachol. Does dim rhaid i alwyr rannu eu henw ac fe allan nhw aros yn ddienw.




| | |
|---|---|
| Rhif Ffôn: | 0300 123 3311 |
| E-bost: | imlu@cardiff.gov.uk |

## Cyngor Budd-daliadau

Mae **Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru** yn cynnig cyngor budd-daliadau i bobl hŷn (dros 50). Gallan nhw gynnig gwybodaeth a chyngor ar lwfans gweini, lwfans byw i'r anabl, PIP, budd-daliadau tai, credyd pensiwn a gostyngiadau treth y Cyngor dros y ffôn neu drwy ymweliad i'ch cartref. At hyn, gallan nhw hefyd gwblhau unrhyw ffurflenni ar gyfer budd-daliadau os yn briodol.

Rhif Ffôn: 08450 549 969

E-bost: info@ageconnectsnewales.org.uk

Gwefan: https://ageconnectsnewales.org.uk/

Mae **Cyngor Ar Bopeth Sir y Fflint** yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar ystod eang o bynciau gan gynnwys budd-daliadau. Gallan nhw gyflawni gwiriad budd-daliadau er mwyn sicrhau eich bod chi'n hawlio popeth rydych chi'n gymwys i'w dderbyn, a'ch helpu i gwblhau'r ffurflenni cais perthnasol.

Rhif Ffôn: 0808 278 7923 – rhif ffôn lleol rhad ac am ddim

0800 7022 020 – National Advicelink

01352 706840 – llinell gymorth weinyddol

18001 08082 505720 – Ffôn testun

Gwefan: https://flintshirecab.org.uk/

Bellach fe allwch chi fanteisio ar gyngor am ddim, annibynnol, cyfrinachol a diduedd drwy WhatsApp.
Mae ein cynghorwyr ar gael ddydd Llun – Gwener o 9yb tan 4yp ac eithrio gwyliau'r banc.

07862138273 *(Mae'r rhif hwn ar gyfer WhatsApp yn unig ac ni allwch ei ffonio)*

# Cyngor Ynni

Mae **LEAP** yn wasanaeth rhad ac am ddim sy'n helpu pobl i gadw'n gynnes a lleihau eu biliau ynni heb iddyn nhw orfod estyn i'w poced. Byddwch yn derbyn galwad asesiad ynni am ddim ac yn dilyn hynny gallwch gael eich atgyfeirio i dderbyn ymweliad am ddim i'ch cartref gan gynghorydd ynni'r cartref. Gallai'r cynghorwyr ynni'r cartref osod dulliau arbed ynni syml ac am ddim yn eich cartref, adnabod a'ch atgyfeirio ar gyfer unrhyw ofynion gwresogi neu ynysu, yn ogystal â'ch atgyfeirio chi os ydyn nhw'n canfod problem diogelwch tân neu berygl yn eich cartref.

Rhif Ffôn: 0800 060 7567

E-bost: support@applyforleap.org.uk

Gwefan: https://applyforleap.org.uk/

Mae **Nest** yn cynnig ystod o gyngor am ddim a diduedd ac, os ydych chi'n gymwys, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim megis bwyler newydd, gwres canolog neu ddefnydd ynysu. Os ydych chi'n poeni am eich biliau ynni a/neu dŵr, neu os ydych chi'n cael trafferth gwresogi eich cartref, codwch y ffôn ac fe allai un o'u cynghorwyr asesu eich cymhwyster.

Rhif Ffôn: **0808 808 2244**

Gwefan: https://nest.gov.wales/en/

Mae **Cymru Gynnes** yn cydweithio gyda nifer o bartneriaid i gyflawni'r prosiect Cartrefi Iach Pobl Iach (HHHP) yng Ngogledd Cymru. Maen nhw'n cynnig ystod o gyngor, cymorth ac opsiynau atgyfeirio sy'n diwallu anghenion preswylwyr y cartrefi, o gyngor ynghylch arbed ynni i gymorth gyda dyledion tanwydd, a chyngor ynghylch diogelwch y cartref. Mae croeso i bawb fanteisio ar HHHP ond mae gan rai o'r gwasanaethau maen nhw'n atgyfeirio atyn nhw eu meini prawf eu hunain o ran cymhwyster.

Rhif Ffôn: 01352 711751

E-bost: information@warmwales.org.uk

Gwefan: https://www.warmwales.org.uk/healthy-homes-healthy-people/

# Grantiau

Gallai **Alltudion ar Waith (DPIA)** gynnig grantiau bach i ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ariannu addysg a chostau sy'n ymwneud â llesiant. Mae'r gronfa hon yn arbennig o ddefnyddiol i geiswyr lloches lle nad oes ganddyn nhw hawl fel arall i fanteisio ar gyllid cyhoeddus ac sy'n wynebu caledi a hyd yn oed tlodi. Ymysg yr enghreifftiau o'r hyn y mae'r gronfa wedi talu amdanyn nhw mae gwisg ysgol, sbectol, ffioedd cofrestru ar gyfer y coleg, ffioedd ymgeisio ar gyfer y brifysgol a chostau teithio i wersi.

Rhif Ffôn: 02920 789 733

E-bost: info@dpia.org.uk

Gwefan: https://www.dpia.org.uk/

Mae **Friends of the Elderly** yn cynnig grantiau i bobl hŷn sy'n byw ar incwm isel. Os ydych chi o oedran ymddeol y wladwriaeth ac yn byw ar incwm isel, gallwch fod yn gymwys ar gyfer grant. Ar hyn o bryd mae tri math o grant ar gael; Hanfodion y cartref – i dalu am eitemau dydd i ddydd, mân atgyweiriadau i'r cartref ac addasiadau symudedd. Cysylltiad digidol – gellir ei ddefnyddio tuag at gost cyfarpar, megis tabledi a ffonau clyfar, ynghyd â chostau band eang. Cymorth ariannol – i helpu gyda biliau annisgwyl a chostau sylweddol, megis biliau cyfleustodau, costau angladdau neu ffioedd symud.

Rhif Ffôn: 0330 332 1110

E-bost: hello@fote.org.uk

Gwefan: https://www.fote.org.uk/our-charity-work/grants/



Diweddarwyd olaf 23/10/2023.

Mae **Cronfa Cymorth Treffynnon** yn elusen hynafol i gynnig cymorth i'r rheiny sydd mewn angen yn Ardal Treffynnon, Bagillt a Brynffordd a bu ganddo sawl wahanol enw ers ei sefydlu. O Ionawr 2021, caiff grantiau o hyd at £250 eu cyflwyno i unigolion fel y barno'r rheiny sy'n gyfrifol am y gronfa yn ddoeth. I drafod cais, cysylltwch gydag y Tad Dominic.

Rhif Ffôn: 01352 712872

E-bost: dominiccawdell@churchinwales.org.uk

Gwefan: Holywell Relief Fund

Mae **Annibyniaeth yn y Cartref** yn elusen sy'n cynnig grantiau i bobl o bob oedran sydd ag anabledd corfforol, anabledd dysgu neu salwch hirdymor ac sydd mewn angen ariannol. Bydd y cymorth ariannol hwn yn fodd iddyn nhw gaffael cyfarpar symudedd ac anabledd, gwneud addasiadau i'w cartref a manteisio ar eitemau hanfodol eraill i gael effaith uniongyrchol, ymarferol a chadarnhaol ar eu bywyd o ddydd i ddydd yn eu cartref.

Rhif Ffôn: 020 8427 7929

E-bost: iah@independenceathome.org.uk

Gwefan: http://www.independenceathome.org.uk/

Mae gan **SSAFA** brofiad helaeth gyda dod o hyd i atebion i gynfilwyr sy'n ceisio cymorth ariannol i helpu gyda chynnal eu symudedd a'u hannibyniaeth yn eu cartref. P'un ai ydy eich problemau symudedd yn sgil henaint neu gyflwr meddygol presennol, mae'r staff wedi'u hyfforddi i'ch helpu i gaffael y cyfarpar sydd ei angen arnoch chi, gan gynnwys sgwteri symudedd, lifftiau grisiau a chadeiriau gogwyddo.

Rhif Ffôn: 0800 260 6767

Gwefan: https://www.ssafa.org.uk/

Mae **Turn2us** yn elusen genedlaethol sy'n cynnig cymorth ymarferol i bobl sy'n wynebu trafferthion ariannol. Mae yna sawl grant sy'n cynnig cymorth ariannol i bobl sydd mewn angen. Mae gan Turn2us adnodd chwilio ar-lein y mae modd ei hidlo gan ddefnyddio amryw gategorïau i gaffael canlyniadau sy'n gweddu ichi.

Gwefan: https://www.turn2us.org.uk/

https://grants-search.turn2us.org.uk/



Diweddarwyd olaf 23/10/2023.

# Cymorth amrywiol ar gyfer pobl ar incwm isel

Mae **BT Basic** yn becyn cost isel a hawdd ei ddeall sydd ar gael i bobl sy'n derbyn budd-daliad cymwys. Mae BT Basic ond yn £5.10 (yn cynnwys TAW) pob mis ar gyfer rhentu'r llinell. Am y gost honno, gallwch fanteisio ar lwfans galwadau am hyd at £1.50 (yn cynnwys TAW) pob mis. Byddwch yn talu am unrhyw alwadau ychwanegol ond mae cap pris o £10.

Rhif Ffôn: 0800 587 0083

Gwefan: BT Basic

Mae'r **Gronfa Cymorth Dewisol (DAF)** yn cynnig 2 fath o grant nad oes angen ichi eu had-dalu. Gallai'r Taliad Cymorth mewn Argyfwng (EAP) eich helpu i dalu am gostau hanfodol, megis bwyd, nwy, trydan, dillad neu hyd yn oed teithio mewn argyfwng. Gallai'r Taliad Cymorth i Unigolion (IAP) eich helpu chi neu rywun rydych chi'n gofalu amdanyn nhw i fyw'n annibynnol yn eu cartref neu eiddo maen nhw'n symud i mewn iddo. Mae'n rhaid ichi fod yn wynebu caledi ariannol eithafol er mwyn gallu cyflwyno hawliad. Gallwch dderbyn cymorth i ymgeisio am Gronfa Cymorth Dewisol gan yr asiantaethau sydd wedi'u rhestru yn y cyfeirlyfr hwn sy'n cynnig cyngor am fudd-daliadau, neu gallwch gwblhau'r cais eich hun ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gwefan: https://gov.wales/discretionary-assistance-fund-daf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae gan bob **Ganolfan Byd Gwaith** Gronfa Cymorth Hyblyg i helpu ceiswyr gwaith sy'n chwilio am waith. Gellir defnyddio'r gronfa tuag at bethau fel cost trafnidiaeth, gofal plant, dillad gwaith, offer a mwy (yn ystod eich cyfnod yn chwilio am waith neu ichi allu derbyn cynnig swydd) os ydy cynghorydd o'r farn y byddai'n sicrhau bod y trosglwyddiad i waith yn haws. Gofynnwch i'ch canolfan leol os ydyn nhw'n cynnig unrhyw gymorth. Gallwch ddod o hyd i fanylion am leoliadau a sut i gysylltu gydag eich Canolfan Byd Gwaith agosaf ar wefan y Llywodraeth.

Gwefan: https://find-your-nearest-jobcentre.dwp.gov.uk/search.php

Mae **Kidsbank** yn helpu i leddfu tlodi drwy gynnig eitemau babi o safon newydd ac ail-law i deuluoedd sydd mewn angen. Caiff teuluoedd mewn angen eu hatgyfeirio gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol rheng flaen eraill yn y gymuned.

Gwefan: https://kidsbankchester.com/



Diweddarwyd olaf 23/10/2023.

Mae **Credyd Ffôn ar gyfer Ffoaduriaid ac Alltudion** yn cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd yn sgil rhyfel a gwrthdaro. Rydym yn cynnig credyd ar gyfer ffonau symudol er mwyn iddyn nhw allu cysylltu gyda'u teuluoedd, cyfathrebu gydag asiantaethau cymorth a sicrhau eu bod yn ddiogel.

E-bost: INFO@PC4R.ORG

Gwefan: https://www.pc4r.org/

Mae **Prom Ally** yn cynnig cyfle i logi ffrogiau a siwtiau prom yn rhad ac am ddim i ddisgyblion ysgol, myfyrwyr chweched dosbarth a myfyrwyr coleg na fyddai'n gallu eu fforddio fel arall. Mae'r holl wisgoedd yn rai ail-law a naill ai wedi'u prynu mewn siopau elusen neu wedi'u cyfrannu'n uniongyrchol (mae sawl un ond wedi'u gwisgo unwaith!) Fe gân nhw eu gwirio a'u golchi o'r newydd cyn pob benthyciad. Gallwch logi gwisg yn rhad ac am ddim fodd bynnag maen nhw'n gofyn am £10.00 er mwyn talu'r gost danfon a dychwelyd. Mae'n rhaid i'ch ysgol, awdurdod lleol neu elusen arall eich atgyfeirio er mwyn ichi allu manteisio ar ein gwasanaeth am ddim.

E-bost: info@promally.co.uk

Gwefan: https://www.promally.co.uk/

Mae **Refurbs** yn cynnig offer a dodrefn cartref fforddiadwy o safon. Maen nhw'n helpu aelwydydd ar incwm isel i ddodrefnu eu cartrefi am lai ac atal eitemau o safon rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

Rhif Ffôn: 01352 734111

E-bost: admin@refurbs.org.uk

Gwefan: https://www.groundworknorthwales.org.uk/refurbs/

# Cyngor Sir y Fflint

Mae gan yr awdurdod lleol sawl cynllun sy'n cynnig cymorth ariannol i drigolion Sir y Fflint. Mae mwy o wybodaeth am y rhain a ffynonellau cymorth eraill ar gael ar y Canolbwynt Costau Byw ar wefan Cyngor Sir y Fflint.

## Canolbwynt Costau Byw

Gwefan: https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Cost-of-Living-Hub/Home.aspx

## Croeso Cynnes

Os ydych chi'n chwilio am weithgareddau ichi a'ch teulu neu os hoffech chi fwynhau sgwrs a phaned mewn gofod cynnes a chroesawgar, gallwch fanteisio ar leoliadau ledled Sir y Fflint sy'n awyddus i gynnig croeso cynnes ichi yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llunio map rhyngweithiol sy'n dangos lleoliadau'r canolfannau clyd sydd wedi cofrestru gyda nhw.

Gwefan: https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Cost-of-Living-Hub/Warm-Welcome.aspx



Diweddarwyd olaf 23/10/2023.